Cyfansoddiad CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU

Addaswyd ar 5ed Mai 2007

1. Enw'r Gymdeithas fydd “CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU”.

2. Bydd CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU yn gwbl gyfrifol am waith y Gymdeithas a'i hamcan fydd annog pobl i ddilyn ffordd o fyw sy'n ymwrthod a rhyfel ac sy'n ceisio dwyn cymod rhwng personau a hiliau, a rhwng deiliaid pob cenedl a diwylliant trwy ymarfer cariad fel y'i dysgwyd gan IESU GRIST.

3.Gellir cyflawni'r amcan hwn drwy'r Gymraeg a'r Saesneg, ond y Gymraeg fydd iaith swyddogol y Gymdeithas.

4.Bydd Y Gymdeithas yn cadw cysylltiad agos a'r canghennau eraill ym Mhrydain, ac yn aelod cyflawn o'r Gymdeithas Ryngwladol (IFOR),

5.Gorwedd yr awdurdod terfynol gyda CHYNGOR Cymdeithas y Cymod.

6.Cyfansoddir y CYNGOR a'r holl bersonau hynny oddi mewn a thu allan i Gymru sydd yn aelodau cyflawn ac wedi talu tanysgrifiad cyfredol.

7.Bydd Y CYNGOR yn cyfarfod o leiaf un waith y flwyddyn.

8.Bydd Y CYNGOR yn ethol Cadeirydd, ac Is-Gadeirydd o blith ei aelodau, i wasanaethu am dair blynedd, a rhyddid i'w hail ethol am dymor cyffelyb

9.Bydd Y CYNGOR yn ethol Ysgrifennydd Cyffredinol a Thrysorydd i wasanaethu am bum mlynedd, a rhyddid i'w hailethol am dymor cyffelyb.

10. Bydd Y CYNGOR yn ethol PWYLLGOR GWAITH a gyferfydd o leiaf DAIR gwaith y flwyddyn. Aelodau'r Pwyllgor Gwaith fydd y Swyddogion, ynghyd ag o leiaf dau aelod a etholir gan y CYNGOR, i wasanaethu am dair blynedd a rhyddid i'w hail ethol am dymor cyffelyb. Bydd gan y Pwyllgor Gwaith yr hawl i gyfethol.

11. Gall y CYNGOR ethol is-bwyllgorau rhanbarthol yn ôl yr angen, i gwrdd o leiaf unwaith y flwyddyn, ac yn cynnwys un ai'r Cadeirydd neu'r is-gadeirydd, yr Ysgrifennydd Cyffredinol a'r aelodau hynny o'r Pwyllgor Gwaith sy' n byw o fewn y dalgylch. Byddai gan yr is-bwyllgorau'r hawl i gyfethol rhai i gynorthwyo.

12. Gall y CYNGOR sefydlu gweithgorau i ymwneud a thasgau arbennig, a chadarnhau enwau ymgynullydd ac ysgrifennydd ar gyfer pob un. Bydd y gweithgorau yn agored i unrhyw aelod a'r Gymdeithas, ac yn parhau yn ôl yr angen. Bydd gan bob gweithgor gynrychiolydd ar y Pwyllgor Gwaith.

13. Bydd gofyn i unrhyw newid yn y CYFANSODDIAD hwn fod trwy gydsyniad dau draean o'r aelodau a fydd yn bresennol ac yn pleidleisio mewn CYFARFOD BLYNYDDOL. Rhaid bod cynnig i newid y CYFANSODDIAD yn cyrraedd yr Ysgrifennydd Cyffredinol a leiaf 21 diwrnod o flaen y Cyfarfod lle cyflwynhir y cynnig. Rhaid wrth rybudd a 14 diwrnod o leiaf o gyfarfod o'r fath i'r aelodaeth, gall gynnwys rhybudd o'r newid arfaethedig.

14. Bydd modd diddymu'r Gymdeithas drwy gynnig a basiwyd gan fwyafrif o ddau draean o'r rhai a fyddai'n bresennol ac yn pleidleisio mewn Cyfarfod Cyffredinol Arbennig a alwyd i'r pwrpas, a'r hwn y rhoddir 21 diwrnod o rybudd i'r aelodau. Gall y cyfryw gynnig roi cyfarwyddiadau ynglŷn â defnydd unrhyw fuddiannau a ddelir gan y Gymdeithas, neu yn ei henw, ar yr amod na fydd i unrhyw eiddo sy'n weddill ar ôl cwrdd â'r holl ddyledion a gofynion, gael ei dalu i'r aelodau, neu ei rannu yn eu plith, ond yn hytrach fe'i rhoddir neu fe'i trosglwyddir i sefydliadau elusennol eraill neu sefydliadau sydd ag amcanion tebyg i rai neu i'r cyfan o amcanion y Gymdeithas fel y penderfyno'r Gymdeithas, ac oni ellir cwrdd â'r amod hon, yna i bwrpas elusennol arall